# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Llais

# Cynnwys

**Hanes adolygu a chymeradwyo** ..... 3
**Cyflwyniad** ..... 4
**Rolau a chyfrifoldebau** ..... 4
**Egwyddorion cydweithredu** ..... 6
**Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd** ..... 7
**Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau** ..... 9
**Llywodraethu** ..... 10
**Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu** ..... 11
**Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth** ..... 12
  **Gweithgarwch ymgysylltu parhaus** ..... 12
  **Cyfarfod Dwyochrog bob Deufis** ..... 12
  **Uwchgynhadledd** ..... 12
  **Gweithdai ar y cyd** ..... 12
  **Adolygiadau Cenedlaethol a Lleol** ..... 13
**Atodiad B – Manylion Cyswllt** ..... 14

## Hanes adolygu a chymeradwyo

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 1.0 |
| **Dyddiad creu** | 3.3.23 |
| **Awduron** | AGIC: Abubakar Askira<br>Llais: Angela Mutlow |
| **Dyddiad cytuno** | 18 Rhagfyr 2023 |
| **Dyddiad adolygu** | 18 Rhagfyr 2024 |

## Cyflwyniad

1. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw pennu fframwaith er mwyn cefnogi'r gydberthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Llais.

2. Mae'r gydberthynas waith hon yn rhan o'r gwaith o gynnal system reoleiddio effeithiol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru, sy'n hybu diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel.

3. Dim ond i'r gwaith o reoleiddio ac arolygu gofal iechyd yng Nghymru y mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn berthnasol. Nid yw'n drech na chyfrifoldebau na swyddogaethau statudol AGIC na Llais ac nid yw'n creu hawliau na rhwymedigaethau cyfreithiol rwymol; ei ddiben yw diffinio'r cytundeb ar y cyd rhwng y ddau sefydliad a nodi camau gweithredu cyffredin.

4. Fel rhan o'r gweithgareddau yr ymgymerir â nhw fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gellir llunio cytundebau eraill (er enghraifft, cytundebau rhannu gwybodaeth, neu brotocolau cydweithio). Bydd y cyfryw gytundebau yn bodoli ar wahân i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

## Rolau a chyfrifoldebau

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

5. AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hymreolaeth weithredol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC o'r ddeddfwriaeth ganlynol:
   - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;
   - Deddf Safonau Gofal 2000 (a rheoliadau cysylltiedig);
   - Deddf Iechyd Meddwl 1983 a 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;
   - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011;

- Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008; a
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a Rheoliadau Diwygio 2018;
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

6. Rôl graidd AGIC yw arolygu gwasanaethau'r GIG a rheoleiddio sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill bod gwasanaethau yn ddiogel ac o ansawdd da. Dyma flaenoriaethau strategol AGIC ar gyfer 2022-25:
   - Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt;
   - Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg;
   - Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd;
   - Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.

7. Caiff gwasanaethau iechyd eu harolygu a'u rheoleiddio yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau i wasanaethau a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig, lle yr ymddengys fod methiannau systematig o ran y ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu darparu, er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud ac y caiff gwersi eu dysgu'n gyflym.

8. Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Rheoliadau Gofal Iechyd

Annibynnol (Cymru) 2011 sy'n llywodraethu'r gwaith o reoleiddio sefydliadau o'r fath.

**Llais**

9. Mae gan Llais dri maes gweithgarwch craidd:
   - Gweithio gyda phobl, cynrychiolwyr y gymuned a grwpiau ym mhob rhan o Gymru i glywed safbwyntiau pobl leol a'u profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
   - Rhannu'r hyn rydym yn ei glywed â'r GIG, awdurdodau lleol a gwneuthurwyr penderfyniadau eraill er mwyn gwneud yn siŵr bod safbwyntiau a phrofiadau pobl yn gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bawb;
   - Pan fydd pethau'n mynd o chwith, byddwn yn cefnogi pobl i gwyno.

## Egwyddorion cydweithredu

10. Mae AGIC a Llais yn cydnabod eu priod gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol ac anstatudol, a byddant yn ystyried y rhain wrth gydweithio â'i gilydd. Mae'r trefniadau hyn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn ystyried yr argymhellion sy'n deillio o nifer o ymchwiliadau ac adolygiadau diweddar,[1] [2]yn enwedig yr angen i fanteisio i'r eithaf ar drefniadau gweithio ar y cyd er mwyn, yn y pen draw, wella profiad a diogelwch cleifion a'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir.

11. Wrth roi'r cytundeb hwn ar waith, bwriad AGIC a Llais yw y caiff eu cydberthynas waith ei nodweddu gan yr egwyddorion canlynol:

[1] Gan gynnwys Ymchwiliad Francis (Adroddiad yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford, Chwefror 2013), Adroddiad Williams (Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Ionawr 2014).

[2] Adroddiad Andrews ('Ymddiried mewn Gofal', Mai 2014), Adolygiad Evans a'r Ymchwiliad dilynol gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ('Defnyddio Cwynion yn Rhodd', Mehefin/Gorffennaf 2014) ac Adroddiad Marks ('Y Ffordd Ymlaen: dod yn gorff arolygu a gwella', Tachwedd 2014).

- yr angen i wneud penderfyniadau sy'n diogelu ac yn hybu gofal iechyd o ansawdd uchel ac sy'n hybu iechyd, diogelwch a lles cleifion;
- bod yn gwbl agored a sicrhau tryloywder rhwng y ddau sefydliad o ran pryd yr ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol neu'n briodol a phryd nad ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol nac yn briodol;
- parch at statws annibynnol y naill sefydliad a'r llall;
- yr angen i ddefnyddio adnoddau a gwybodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon drwy gydlynu a rhannu gwybodaeth yn briodol;
- yr angen i gynnal hyder y cyhoedd yn y ddau sefydliad; ac
- ymrwymiad i fynd i'r afael ag unrhyw achosion o orgyffwrdd neu fylchau yn y fframwaith rheoleiddio a'r cyfrifoldebau rheoleiddio.

12. Mae AGIC a Llais hefyd yn ymrwymedig i reoleiddio tryloyw, atebol, cymesur a chyson sydd wedi'i dargedu (sef egwyddorion rheoleiddio gwell).

13. Nid yw AGIC yn ymchwilio i gwynion cleifion fel mater o drefn. Pan fydd cleifion yn cysylltu ag AGIC, cânt eu cyfeirio at y broses 'Gweithio i Wella' ac, os yw'n berthnasol, darperir manylion cyswllt eu swyddfa Llais ranbarthol hefyd rhag ofn y bydd angen cymorth arnynt.

14. Nid yw Llais yn archwilio risgiau na materion clinigol fel mater o drefn. Pan fydd risgiau i ddiogelwch cleifion yn dod i'r amlwg, bydd cyfarwyddwr rhanbarthol perthnasol Llais yn cyfeirio'r mater at ei reolwr cydberthnasau lleol a chaiff ymateb priodol ei ystyried fel rhan o brosesau risg ac uwchgyfeirio AGIC. Bydd AGIC yn hysbysu swyddfa berthnasol Llais o ganlyniadau'r ystyriaethau hyn.

## Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd

### Cyfnewid Gwybodaeth

15. Bydd cydweithredu rhwng AGIC a Llais yn aml yn gofyn am gyfnewid gwybodaeth. Bydd disgwyl cyfnewid gwybodaeth yn yr achosion canlynol, ond ni fydd y broses yn gyfyngedig i'r achosion hyn:
    - lle mae naill ai AGIC neu Llais yn nodi pryderon am iechyd a llesiant y cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas â phrofiad y claf a newid i wasanaeth; ac
    - lle byddai ymateb wedi'i gydlynu gan fwy nag un sefydliad o fudd wrth ddatrys pryder.

16. Mewn achosion o'r fath, bydd pob achos o gyfnewid gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn gymesur, a chaiff y wybodaeth ei rhannu’n gyfrinachol â'r cyswllt a enwir yn y sefydliad arall cyn gynted â phosibl.

17. Y cysylltiadau agosaf rhwng gwaith Llais ac AGIC yw swyddogaethau Llais o ran ymgysylltu parhaus a chraffu, gan gynnwys cynnal ymweliadau. Caiff ein rhaglenni gwaith eu llywio drwy rannu a chroesgyfeirio gwybodaeth. Mae'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn Atodiad A yn cefnogi'r gwaith o rannu a chroesgyfeirio gwybodaeth.

18. Rydym yn ymrwymedig i rannu gwybodaeth am ffocws ein gwaith bob blwyddyn ac i fwrw ati i ystyried a oes unrhyw gyfleoedd i sicrhau mwy o fudd i gleifion a'r cyhoedd drwy wneud y canlynol:
    - codi ymwybyddiaeth o weithgareddau ein gilydd;
    - addasu amserlenni ein priod raglenni lle mae hyn yn rhoi cyfle i fwydo i mewn i waith ein gilydd neu i ymgymryd â gwaith ar y cyd;
    - addasu cynnwys ein priod raglenni er mwyn cael gwared ar achosion o ddyblygu neu er mwyn cydlynu ein gwaith yn benodol.

19. Yn ogystal â'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn Atodiad A, mae nifer o ddulliau yn bodoli i gyflawni hyn.
    - Cyhoeddwyd rhaglen AGIC o adolygiadau thematig cenedlaethol yn ei chynllun strategol a gwahoddir Llais i fod yn aelodau o grwpiau cyfeirio rhanddeiliaid thematig fel y bo'n briodol. Mae hyn yn sicrhau eglurder o ran

cynnwys ac amseru ac yn darparu fforwm y gellir ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd i gydweithio;

- Mae Llais ac AGIC yn darparu dolenni i wefan y llall ar eu gwefannau er mwyn helpu'r cyhoedd i gael y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt;
- Mae Llais ac AGIC yn defnyddio eu systemau cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o ymgyngoriadau a chyhoeddiadau perthnasol y corff arall.

20. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, ac unrhyw brotocol gweithio ar y cyd a all gael ei ddatblygu, yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, adran 76 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, Deddf Safonau Gofal 2000 a holl ddeddfwriaeth berthnasol AGIC a Llais sy'n ymwneud â'r materion hyn, a'u Codau Ymarfer, fframweithiau neu bolisïau eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol a materion gwybodaeth.

21. Mae AGIC a Llais yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd y naill sefydliad yn cael cais am wybodaeth a ddeilliodd o'r llall, bydd y sefydliad sy'n cael y cais yn ei drafod â'r llall cyn ymateb.

## Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau

22. Bydd AGIC a Llais yn rhoi digon o rybudd a gwybodaeth i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau arfaethedig i'r cyhoedd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cynigion a chyhoeddiadau drafft. Mae trafodaethau ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg wedi'u cynnwys yn y gweithgarwch ymgysylltu parhaus a ddisgrifir yn Atodiad A.

23. Mae rhai systemau penodol ar gyfer ymdrin â chyfathrebu allanol:

- Rhannu amlinelliad cynnar a drafftiau terfynol lle mae adroddiadau unigol yn ystyried gwaith ei gilydd neu'n cyfeirio'n benodol ato;
- Sicrhau bod adroddiadau terfynol ar gael cyn iddynt gael eu cyhoeddi o dan drefniadau 'embargo' y cytunir arnynt;
- Annog cyfeiriadau penodol at waith ei gilydd ac at adroddiadau a gyhoeddwyd fel rhan o ddeunyddiau cyfathrebu rheolaidd y ddau sefydliad, e.e. cylchlythyrau ac ar ein priod wefannau;
- Cynnig cyfle i wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol datganiadau i'r wasg, adroddiadau, tystiolaeth i bwyllgorau Senedd Cymru ac ati, lle mae’r rhain yn cyfeirio'n benodol at waith y sefydliad arall;
- Cyfeirio at waith ei gilydd ac unrhyw waith ar y cyd, os yw'n berthnasol, wrth siarad mewn cynadleddau neu gyfarfodydd cyhoeddus.

24. Bydd AGIC a Llais yn ymrwymo i weithio gyda'i gilydd, lle y bo'n briodol, i gynhyrchu gohebiaeth neu ddatganiadau ar y cyd sy'n tynnu sylw at gydweithio neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad.

25. Bydd AGIC a Llais yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi, ac ni fyddant yn ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n arwain at gyhoeddi cynnwys y dogfennau hynny cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

## Llywodraethu

26. Bydd cyswllt rheolaidd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn ategu effeithiolrwydd y gydberthynas waith rhwng AGIC a Llais. Disgrifir y cyswllt hwn, ac unrhyw drefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, yn Atodiad A. Ceir manylion cyswllt yr unigolion perthnasol ar lefel weithredol yn y ddau sefydliad yn Atodiad B.

27. Fel arfer caiff unrhyw anghytundeb rhwng AGIC a Llais ei ddatrys ar lefel gweithio. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid ei ddwyn at sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, a all ei uwchgyfeirio wedyn, fel y bo'n briodol, o fewn y ddau sefydliad er mwyn sicrhau datrysiad

sy'n foddhaol i'r ddau sefydliad. Dylai'r ddau sefydliad anelu at ddatrys unrhyw anghydfod o fewn amser rhesymol.

## Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu

28. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad B. Byddant yn cydgysylltu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfredol, yn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â chydberthynas waith y ddau sefydliad.

29. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gyfyngedig o ran amser a chaiff ei adolygu bob blwyddyn gan reolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, ond gellir hefyd ei adolygu ar fyrder ar unrhyw adeg ar gais y naill sefydliad neu'r llall.

**Llofnodwyd**



**Alun Jones**
Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad:  18 Rhagfyr 2023

**Llofnodwyd**



**Alyson Thomas**
Prif Weithredwr
Llais

Dyddiad:  18 Rhagfyr 2023

## Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth

Er bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi egwyddor arweiniol rhannu gwybodaeth a digwyddiadau, mae rhai gweithgareddau penodol hefyd a fydd yn hwyluso'r bartneriaeth rhwng AGIC a Llais:

**Gweithgarwch ymgysylltu parhaus**
Mae'r cyfarwyddwyr rhanbarthol a rheolwyr cydberthnasau AGIC yn cyfarfod yn unigol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn rhannu risgiau sy'n dod i'r amlwg a materion a nodwyd drwy ein gwaith. Yn y cyfarfodydd hyn, bydd Llais yn rhannu dadansoddiad o'r cwynion a gafwyd ag AGIC er mwyn llywio proses i adnabod clystyrau a phatrymau posibl.

**Cyfarfod Dwyochrog bob Deufis**
Bydd y Prif Weithredwyr yn cyfarfod bob deufis. Diben y cyfarfodydd hyn fydd cynnal trafodaeth strategol ar faterion a chynlluniau sy'n mynd rhagddynt ac ystyried dyfodol y trefniadau gweithio ar y cyd a'u hadolygu.

Bydd y cyfarfodydd hyn yn anelu at rannu themâu cenedlaethol a chynlluniau gweithredol yn gyffredinol cyn dechrau'r flwyddyn a rhoi diweddariadau ar gynnydd. Yna, caiff y naill a'r llall ei wahodd i lywio cwmpas y gweithgareddau cenedlaethol thematig.

**Uwchgynhadledd**

Mae AGIC yn cynnal Uwchgynhadledd Gofal Iechyd bob chwe mis, sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth am bob Bwrdd Iechyd. Mae cynadleddwyr yn cynnwys rheoleiddwyr proffesiynol a chyrff perfformiad. Mae Llais yn aelod gweithredol o'r Uwchgynhadledd hon a gall gyflwyno ei ganfyddiadau i AGIC a'r cynadleddwyr eraill. Mae Llais hefyd wedi ymrwymo i broses yr Uwchgynhadledd Eithriadol. Diben yr Uwchgynhadledd Eithriadol yw darparu mecanwaith glir, er mwyn i aelodau'r Uwchgynhadledd Gofal Iechyd godi materion a risgiau o bwys sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â diogelwch cleifion.

**Gweithdai ar y cyd**
Mae trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn caniatáu i AGIC a Llais gynnal gweithdai (yn ôl yr angen) i gyflwyno cynlluniau gwaith sy'n mynd rhagddynt, canfyddiadau diweddar a gwaith ar y cyd sy'n mynd rhagddo. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i holl reolwyr cydberthnasau AGIC a chyfarwyddwr rhanbarthol Llais rwydweithio a thrafod gwaith sy'n mynd rhagddo ar lefel fwy gweithredol na chyfarfodydd y Prif Weithredwyr.

Bydd yr agenda ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn amrywio drwy gydol y flwyddyn yn dibynnu ar y gwaith ar y cyd sy'n mynd rhagddo a chylchoedd cynllunio gweithredol. Fodd bynnag, bydd y gweithdai hyn yn cynnwys y canlynol o leiaf:

- Diweddariad ar gynlluniau a gweithgareddau sefydliadol
- Diweddariad ar waith a gwblhawyd hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg;
- Unrhyw bryderon neu themâu sydd wedi codi dros y tri mis diwethaf;
- Camau a gymerwyd yn erbyn y pryderon a'r themâu a godwyd yn y gweithdy diwethaf;
- Diweddariad ar waith sy'n gysylltiedig ag adolygiadau cenedlaethol a lleol sy'n mynd rhagddynt.

**Adolygiadau Cenedlaethol a Lleol**

Mae AGIC a Llais yn cynnal cyfres o adolygiadau drwy gydol y flwyddyn sy'n canolbwyntio ar bynciau penodol a materion y tynnwyd sylw atynt drwy fonitro risgiau a materion. Mae'n bosibl y bydd yr adolygiadau hyn o ddiddordeb cyffredin i'r ddau sefydliad. Lle y bydd hyn yn digwydd, bydd Arweinwyr enwebedig y Prosiect yn cyfarfod fel y bo'n briodol i drafod cynlluniau adolygu, dulliau gweithredu ac allbynnau.

## Atodiad B – Manylion Cyswllt

---

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** **Llais**
Llywodraeth Cymru 33-35 Heol y Gadeirlan
Parc Busnes Rhyd-y-car Caerdydd
Merthyr Tudful CF11 9HB
CF48 1UZ
Ffôn: 02920 235 558
Ffôn: 0300 062 8163

---

Mae enwau cyswllt AGIC a Llais fel a ganlyn:

| **Prif Weithredwyr** | |
|---|---|
| **Alun Jones** *Prif Weithredwr*<br>Alun.jones39@gov.wales | **Alyson Thomas**<br>*Prif Weithredwr*<br>alyson.thomas@llaiscymru.org |

| **Rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** | |
|---|---|
| **Abubakar Askira**<br>Cyfarwyddwr Strategaeth ac Ymgysylltu<br>abubakar.askira@llyw.cymru<br>Ffôn: 0300 025 2663 | **Ben Eaton**<br>Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth ac Ymgysylltu Sefydliadol<br>ben.eaton@llaiscymru.org<br>Ffôn: 02920 235558 |

| **Blwch Negeseuon E-bost Pryderon** | |
|---|---|
| concerns.hiw@gov.wales<br>Ffôn: 0300 062 8163 | concerns@llaiscymru.org<br>Ffôn: 02920 235558 |